Pleidlais ar Gyfrif 2019-20

ar gyfer y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2020

Amcangyfrif Cyflenwi

Y Comisiwn Etholiadol

Cyflwynir i Dŷ'r Cyffredin yn unol â Pharagraff 14 (5) o Atodlen 1 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w hargraffu ar 11Chwefror 2019

HC 1960

© Coron Hawlfraint 2019

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-license/version/3.

Lle y nodwyd deunydd trydydd parti, mae'n rhaid ceisio caniatâd y deiliad hawlfraint perthnasol.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau sy'n gysylltiedig â'r cyhoeddiad hwn atom yn:

3 Bunhill Row, Llundain, EC1Y 8YZ

Ffôn 0333 1031928

info@electoralcommission.org.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

www.electoralcommission.org.uk/

ISBN 978-1-5286-1026-1

CCS0219535636 02/19

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffeibr a ailgylchwyd

Argraffwyd yn y DU gan Grŵp APS ar ran Rheolwr Llyfrfa ei Mawrhydi

Pleidlais ar Gyfrif 2019-20 y Comisiwn Etholiadol

CYFLWYNIAD

Pleidlais ar Gyfrif ar gyfer 2019-20

Mae paragraff 14 o Atodlen 1 Deddf Pleidiau Gwleidyddol a Refferenda 2000 yn gofyn i'r Comisiwn Etholiadol gyflwyno amcangyfrif o incwm a gwariant y Comisiwn i Bwyllgor y Llefarydd bob blwyddyn ariannol. Ar ôl gorffen ei archwiliad a gwneud addasiadau (os oes rhai) i'r amcangyfrif bydd Pwyllgor y Llefarydd yn gosod yr amcangyfrif gerbron Tŷ'r Cyffredin.

Mae'r Bleidlais ar Gyfrif yn darparu cyllid i ganiatáu i wasanaethau presennol barhau yn ystod misoedd cyntaf y flwyddyn ariannol nesaf, yn amodol ar ystyriaeth gan y Senedd o amcangyfrif y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2018-19.

Cyflwynir y Bleidlais ar Gyfrif mewn termau adnoddau ac ariannol. Fel arfer mae'r symiau yn 45% o'r symiau a bleidleisiwyd ar eu cyfer ar gyfer y gwasanaethau cyfatebol yn y flwyddyn gyfredol, gan ystyried Prif Amcangyfrifon ac Amcangyfrifon Diwygiedig os fo hynny'n briodol. Dylai'r rhain fod yn ddigon i sicrhau nad yw cyllid yn cael ei ddihysbyddu cyn pasio'r Ddeddf Cyflenwi a Neilltuo yn yr haf, ond nid yw mor uchel fel y bydd yn rhagfarnu ystyriaeth y Senedd o'r prif Amcangyfrif Neilltuo.

Caiff y Bleidlais ar Gyfrif hon ynghyd â'r rhai ar gyfer Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Lloegr (HC 1957); Tŷ'r Cyffredin (HC 1955), Swyddfa Archwilio Genedlaethol (HC 1956), yr Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol (HC 1958) a'r rhai ar gyfer adrannau'r Deyrnas Unedig (HC 1954) eu cynnwys yn y Bil Cyflenwi a Neilltuo (Disgwyliadau ac Addasiadau) sy'n dilyn cyflwyno Amcangyfrifon atodol 2018-19 a'r Bleidlais ar Gyfrif, a fydd yn ceisio awdurdod statudol ar gyfer cyhoeddi o'r Gronfa Gyfunol swm sydd yr un maint â'r Bleidlais ar Gyfrif.

Pleidlais ar gyfrif

2019-20

Y Comisiwn Etholiadol

Adnodd DEL	£8,286,000
Cyfalaf DEL	£486,000
Gofyniad arian parod net	£8,469,000

Symiau sy'n ofynnol ar gyfer PLEIDLAIS AR GYFRIF ar gyfer y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2020 ar gyfer gwasanaethau mewn perthynas â'r Comisiwn Etholiadol.

£

	2018-19 Cyfanswm i'r dyddiad y seilir y ddarpariaeth ar gyfrif arno	**2019-20 Y Swm sydd ei angen ar Gyfrif**
Terfyn Gwariant Adrannol		
Adnodd	16,571,000	**8,286,000**
Cyfalaf	972,000	**486,000**
Gwariant a Reolir yn Flynyddol		
Adnodd	115,000	**–**
Cyfalaf	–	**–**
Cyfanswm Cyllideb Net		
Adnodd	16,686,000	**–**
Cyfalaf	972,000	**486,000**
Gwariant Heb Fod yn Gyllidebol	–	**–**
Gofyniad Arian Parod Net	16,937,000	**8,469,000**

Tŷ'r Cyffredin

11 Chwefror 2019

Cyflwynwyd gan Lefarydd Tŷ'r Cyffredin

CCS9535636
978-1-5286-1026-1